# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Y Cynghorydd N A Burnett** **Ward:Morfa**

## Plaid: Llafur Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2018.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Morfa ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 44 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill, yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon.

**Gweithgarwch Etholaeth**

Rwyf wedi gweithio'n agos iawn gyda'r Cynghorydd Stuart Baldwin, fy nghyd-gynghorydd ward. Rwy'n falch bod gan Forfa ddau gynghorydd Llafur ac rydym wedi gweithio'n eithriadol o galed yn ein blwyddyn gyntaf i gefnogi ein cymuned ac unrhyw broblemau sydd gennych. Rydym yn gynghorwyr ymarferol iawn ac rydym wedi buddsoddi llawer o amser eleni yn dod i adnabod ein cymuned a chysylltu â sefydliadau lleol a'r heddlu.

Mae'r Felin Wyllt wedi bod yn broblem wirioneddol o ran sbwriel ac ailgylchu ond rydym yn dal i weithio'n galed i wthio am welliannau. Rydym wedi lobïo ar gyfer gwelliannau o ran diogelwch ar y ffyrdd a pharcio o amgylch Ysgol Pen-y-bont ac i ymgynghori'n llawn â phob stryd breswyl yng nghanol y dref ym Morfa ynghylch mater trwyddedau parcio i drigolion.

Gyda'n gilydd rydym wedi cynnal cymorthfeydd yn y Felin Wyllt ac yng nghanol y dref. Yr haf diwethaf trefnwyd digwyddiad cymunedol llwyddiannus iawn yn Ysgol Pen-y-bont gyda hwyl a gemau i'r plant a chynnwys y gymuned ehangach wrth gasglu sbwriel ar y cae.Gwnaethom hefyd drefnu glanhau'r parc chwarae yn y Felin Wyllt gan weithio gyda

V2C, Heddlu De Cymru, Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr ac, wrth gwrs, y gymuned.

Rydym hefyd wedi sefydlu Hwb Ward Morfa ar Facebook lle rydym yn postio gwybodaeth am ein gweithgareddau a hefyd er mwyn i chi allu cyfathrebu â ni.

Os oes unrhyw beth sydd ei angen arnoch mae croeso i chi gysylltu â ni.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Fel mam i ddau fachgen yn eu harddegau mae gennyf ddiddordeb penodol mewn addysg a phobl ifanc. Rwyf wedi gweithio'n agos gydag Ysgol Pen-y-bont mewn gweithgareddau codi arian a helpu yn nigwyddiadau'r ysgol ac rwy'n falch o fod yn llywodraethwyr ysgol AALl ar gyfer ysgolion Pen-y-bont a Brynteg. Rwy'n canolbwyntio'n benodol hefyd ar feithrin cymunedau ac adfywio trefi ac rwyf wedi chwarae rhan weithgar mewn llawer o grwpiau a digwyddiadau cymunedol.

Rwy'n un o ddau gynrychiolydd CBSP ar Gydbwyllgor Archifau Morgannwg. Rwy'n Is-gadeirydd ar hyn o bryd a byddaf yn Gadeirydd arno yn 2018/19.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwyf hefyd yn Fyfyriwr PHD Hanes amser llawn ym Mhrifysgol Caerdydd ac rwy'n un o gefnogwyr brwd hanes a threftadaeth leol. Am y ddwy flynedd ddiwethaf, rwyf wedi bod yn ysgrifennydd ar Gymdeithas Hanes Lleol Pen-y-bont ar Ogwr a'r Ardal, ac rwyf bellach yn is-gadeirydd arni. Rwy'n mwynhau rhoi sgyrsiau ar hanes i ysgolion a grwpiau lleol ac rwy'n aml wedi gwisgo i fyny fel gwraig tŷ ar adeg y rhyfel.

Rwyf hefyd yn gynghorydd tref Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer Ward Morfa.

**Y Cynghorydd N A Burnett:** **Dyddiad: 29 Mai 2018**